



Cystadleuaeth Ffotograffig 2021 Adran Ymchwil ac Arloesi BIPBC – *cymorth caredig gan Awyr Las.*

Telerau ac Amodau

Amseru

- Mae'n rhaid i'r holl ymgeisiau ddod i law erbyn 5pm ddydd Gwener 19th Mawrth 2021, ni chaiff ymgeisiau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried.
- Caiff enillwyr a'r sawl sydd am arddangos wybod trwy e-bost ar dydd Gwener 14th Mai 2021 neu cyn hynny.

Cymhwyster

- I fod yn gymwys, mae'n rhaid i chi fod yn un o weithwyr BIPBC.
- Mae rhoi cynnig ar y gystadleuaeth yn rhad ac am ddim
- Mae'r thema'n eang yn fwriadol a byddem yn eich annog i fod mor ddyfeisgar a chreadigol ag y mynnwch o ran cipio eich safbwynt unigryw a gwerthfawr o'r adeg heriol hon ym mywyd ein Bwrdd Iechyd.
- Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich llun yn eich enw eich hun.
- Cadwn yr hawl i wrthod unrhyw ymgeisiau yr ydym yn ystyried eu bod yn peri tramgwydd neu sy'n anaddas.
- Ni chaiff aelodau Tîm Cymorth Awyr Las roi cynnig ar y gystadleuaeth.

Sut i gystadlu

- Cyflwynwch eich cynnig trwy e-bost i Marie.Latham-Jones@wales.nhs.uk a nodwch yng nghorff yr e-bost eich enw llawn, rhif ffôn cyswllt, gan gadarnhau eich bod yn aelod o staff BIPBC a chan gadarnhau eich bod wedi darllen y Telerau a'r Amodau a'ch bod yn eu deall. Gallwch hefyd roi disgrifiad esboniadol byr (heb fod yn fwy na 100 gair) o'r hyn fu'n ysbrydoliaeth i'ch llun.
- Mae'n rhaid bod gan bob llun enw ffeil unigryw pan gaiff ei anfon yn dilyn yr un fformat
"llythyrenenwcyntaf_cyfenw_teitldelwedd.jpg" er enghraifft t_jones_ein_tîm.jpg
- Gallwch roi cynnig ar y gystadleuaeth hyd at bum gwaith.
- Ni chaiff printiau neu ymgeisiau a anfonir trwy'r post eu hystyried na'u dychwelyd.

Fformat delwedd ddigidol

- Dylai lluniau gyfateb i faint ffeil gofynnol o 1MB ac ni ddylent fod yn fwy na 5MB
- Yr eglurder gofynnol a dderbynnir yw 250 dpi
- Mae'n rhaid i ymgeisiau gael eu cyflwyno fel .jpeg ac ni ellir eu cyflwyno ar ffurf 'ffilm-stil'.
- Bydd gofyn i enillwyr a'r cystadleuwyr sy'n cael eu dethol i arddangos eu gwaith gyflwyno eu delweddau eglurder uchel at ddibenion argraffu a chyhoedduswydd.

Telerau mynediad, cydsyniad a hawlfraint

- Mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed neu drosodd i roi cynnig ar y gystadleuaeth.
- Mae'n rhaid i ymgeisiau fod yn waith gwreiddiol a wnaed gennyh chi ac mae'n rhaid i chi ddal hawlfraint am y ddelwedd.
- Gallwch gyflwyno lluniau yr ydych wedi'u tynnu cyn cyhoeddi'r gystadleuaeth ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion Telerau ac Amodau llawn y gystadleuaeth.
- Ni ellir cyflwyno lluniau sydd wedi'u cyflwyno i'w harddangos mewn manau eraill neu sydd wedi ennill gwobrau mewn cystadlaethau ffotograffig eraill.

- Mae modd golygu lluniau'r mymryn lleiaf er mwyn gwneud delweddau'n fwy trawiadol, cael gwared ar effaith llygaid coch, crafiadau neu smotiau ond ar wahân i hynny, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddatgan os yw'r ddelwedd wedi'i haddasu neu ei mireinio a'r dull a ddefnyddiwyd ac i ba raddau.
- Ni chaiff ymgeiswyr dorri unrhyw gyfreithiau wrth dynnu eu lluniau. Mae'n rhaid i unigolion - yn cynnwys cleifion a staff - sy'n cael eu cipio yn y delweddau fod wedi rhoi cydsyniad ac mae'n rhaid cyflwyno prawf o gydsyniad gyda'r cais. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am gael caniatâd ysgrifenedig gan riant neu warcheidwad unigolion yn eu llun os yw'r unigolion hynny o dan 16 oed. Ewch i <http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/861/document/361232> i gael ffurflen gydsynio BIPBC.
- Bydd lluniau sy'n cynnwys gwisgo a defnyddio PPE yn cael eu hadolygu gan un o gynrychiolwyr tîm Rheoli Heintiau BIPBC cyn cael eu derbyn i'r gystadleuaeth.
- Trwy roi cynnig ar y gystadleuaeth, rydych yn cytuno y gall BIPBC gyhoeddi a dangos eich delwedd(au) yn barhaus fel rhan o'i waith ei hun a heb dalu i'w defnyddio. Mae ymgeiswyr yn rhoi'r hawl anghyfyngedig hon i BIPBC ond byddant yn cadw'r hawlfraint llawn yn eu delweddau.
- Trwy roi cynnig ar y gystadleuaeth, mae ymgeiswyr yn cytuno y gall eu delweddau gael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo gan gynnwys gan y wasg leol a'r wasg genedlaethol.
- Efallai y bydd gofyn i enillwyr gymryd rhan mewn ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd.
- Ni ellir trosglwyddo gwobrau
- Os bydd ymgeiswyr yn penderfynu defnyddio'r ddelwedd/delweddau y maent wedi'u cyflwyno at ddibenion masnachol yn ddiweddarach, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i Adran Ymchwil ac Arloesi BIPBC am eu bwriad trwy anfon e-bost at Melissa.vanderbijl@wales.nhs.uk
- Caiff ymgeisiau eu barnu gan ddau gynrychiolydd sy'n Weithredwyr BIPBC ac sy'n Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd a bydd yr holl benderfyniadau'n derfynol.
- Bydd y sawl sy'n ennill y wobwr gyntaf, yr ail wobwr a'r drydedd wobwr yn derbyn dyfais ddigidol
- Nid yw Adran Ymchwil a Datblygiad BIPBC yn derbyn dim cyfrifoldeb dros ymgeisiau sy'n cael eu colli, eu difrodi neu sy'n aneglur fel nad oes modd adnabod enillydd y wobwr neu unrhyw fethiant technegol neu ddigwyddiad arall a allai achosi tarfu ar y gystadleuaeth neu ei difetha.
- Os bydd camgymeriad, waeth sut caiff ei achosi, boed yn gamgymeriad argraffu neu fel arall a p'un a yw'n amlwg neu fel arall, sy'n effeithio ar y gystadleuaeth mewn unrhyw ffordd, mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i gynnal y gystadleuaeth fel pe na bai'r camgymeriad wedi digwydd. Lle bo'r trefnwyr yn ystyried ei bod yn briodol a/neu'n ymarferol gwneud hynny, bydd Adran Ymchwil a Datblygiad BIPBC yn rhoi gwybod i'r cystadleuwyr am y camgymeriad.
- Bydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw rai o'r Telerau ac Amodau'n arwain at ddiarddel yr ymgais.
- Bydd tîm Ymchwil a Datblygiad BIPBC yn trefnu i gasglu'r gwobrau neu eu dosbarthu gan ddilyn canllawiau presennol y Llywodraeth.
- Ni chynigir unrhyw arian parod neu ddewis arall ac nid oes modd trosglwyddo gwobrau.

Diogelu data

- Caiff gwybodaeth bersonol ei chadw fel rhan o'r broses gyflwyno a chaiff ei defnyddio at ddiben prosesu eich ymgais, rhoi gwybod am eich gwobr ac efallai hefyd y caiff ei dangos gyda'ch delwedd mewn arddangosfeydd dilynol, cyfarfodydd addysgol a digwyddiadau eraill.
- Pe baech chi'n ennill y wobr, bydd eich enw a'ch sefydliad ar gael i'r wasg a'r cyfryngau yn unig ochr yn ochr â'r ddelwedd ar gyfer y wasg ac at ddibenion hyrwyddo.
- Ni chaiff gwybodaeth bersonol ei chadw na'i phrosesu at unrhyw ddibenion eraill ac ni fydd Adran Ymchwil ac Arloesi BIPBC yn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol gydag unrhyw drydydd parti heb gael caniatâd penodol yr ymgeisydd. Polisi Adran Ymchwil ac Arloesi BIPBC yw cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth Diogelu Data.